# Gweithgaredd 2: Aelodau o'r Senedd

Daw Aelodau o'r Senedd o bob rhan o Gymru i'ch cynrychioli chi a'ch cymuned yn y Senedd. Ar ôl clywed gennych chi, gall eich Aelod o'r Senedd dynnu sylw at eich pryder yn y Senedd.

Cyfarfodydd cyhoeddus yw'r rhain a gallwch eu gwylio ar **www.senedd.tv.**

**Edrychwch ar yr amserlen ar gyfer diwrnod nodweddiadol i AS yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Beth fyddech chi'n ei wneud?**

| | |
|---|---|
| 8:00 | Cyfarfod dros frecwast gyda phobl busnesau bach lleol. |
| 9:30 | Ateb negeseuon e-bost gan etholwyr. |
| 10:00 | Mynd i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd ac Amgylchedd. |
| 11:30 | Cyfarfod plaid i drafod Cyfarfod Llawn y prynhawn. |
| 12:30 | Ymgyrchwyr yn dod i'r Senedd i gyflwyno llofnodion i gefnogi eu deiseb. |
| 13:30 | Ymuno â phob AS arall yn y Siambr ar gyfer y Cyfarfod Llawn:<br>▪ Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>▪ Datganiad gan y Gweinidog Addysg<br>▪ Dadl ar Fil (cyfraith ddrafft)<br>▪ Y cyfnod pleidleisio |
| 18:00 | Cyfweliad Teledu a Radio. |

9:30

**Rydych yn derbyn yr e-bost hwn yn eich swyddfa. Sut rydych chi'n ymateb?**

**Neges Newydd**

**I:** Ti@senedd.cymru

**Pwnc:** Bwyd

Annwyl Aelod o'r Senedd,

Er gwaethaf y digonedd o fwyd o safon a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru, mae gormodedd o fwyd wedi'i brosesu'n helaeth yn ein diet yn arwain at ganlyniadau dinistriol i iechyd, cyfoeth a llesiant ein cenedl. Mae mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach yn fater cyfiawnder cymdeithasol, gyda chymunedau tlotach yn cael eu heffeithio'n waeth nag eraill gan afiechydon sy'n gysylltiedig â diet gwael. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i hyrwyddo maeth da yn ein cymunedau?

Yn gywir,
C Arthffos

**Neges Newydd**

**I:** Pryderu.Etholwr@ebost.com

**Pwnc:** ATB: Bwyd

10:00 **Rydych yn ymchwilio i lygredd aer fel rhan o waith y Pwyllgor Newid Hinsawdd a’r Amgylchedd.**

Cyflwynir y data canlynol i chi:

- Mae adroddiad newydd yn awgrymu bod llygredd awyr agored yn gysylltiedig â thua 40,000 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU.
- Gall llygredd aer gael effaith niweidiol o’r adeg pan fydd babi yn y groth a pharhau drwy gydol oes i oedran hŷn, gan chwarae rhan mewn llawer o gyflyrau cronig fel canser, asthma, clefyd y galon, a newidiadau niwrolegol sy’n gysylltiedig â dementia.
- Mae plant yn arbennig o agored i niwed a achosir gan lygredd aer, sy’n gallu atal twf yr ysgyfaint ac effeithio ar organau eraill.

**Pa gamau yr hoffech chi eu cymryd o ganlyniad i’r wybodaeth hon?**

12:30 **Deiseb heddiw yw “Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)”.**

**A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r ymgyrchwyr?**
Cofiwch egluro eich rheswm!






**Rydych chi wedi cael eich dewis i ofyn cwestiwn i'r Prif Weinidog.**

Ysgrifennwch eich cwestiwn yma:




**Mae Aelodau'r Senedd yn trafod a ddylid pasio cyfraith newydd a fyddai'n newid gwyliau haf yr ysgol yng Nghymru i un mis.**





**Ydych chi'n Cytuno?**
Pleidleisiwch drwy wasgu eich Botwm Gwyrdd.

☐

**Ydych chi'n Anghytuno?**
Pleidleisiwch drwy wasgu eich Botwm Coch.

☐




**Cewch eich cyfweld yn fyw ar y teledu am sut i gael mwy o bobl i feicio a cherdded i'r gwaith ac i'r ysgol.**

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, gweithiwch mewn parau ar gwestiynau ac atebion, yna cynhaliwch y cyfweliad.

Beth am ffilmio eich profiad!